

DIDDOROL oedd darllen erthygl ar y 'Chwedl Gymreig' gan Mary Wiliam yn Y Casglwr Rhif 31, Mawrth 1987.

Bu imi roi sgwrs ar y 'Te Parti Cymreig' ar y radio y flwyddyn ddiwethaf: a bum yn casglu llestri, delwau, printiau, cardiau ac felly ymlaen, sy'n portreadu y wisg Gymreig ers blynyddoedd bellach, ac yn ceisio ymchwilio i wahanol agweddau o'r cefndir i'r portreadau amrywio a geir, - er enghraifft, i'r tua 160, neu well, o wahanol bortreadau ar y llestri a'r delwau'n unig - gyda'r bwriad o baratoi llyfr ar wahanol agweddau hanesyddol o'r hyn a eilw Mary Wiliam 'Y Chwedl Gymreig.'

Ni fu imi gwblhau'r gwaith ymchwil hyd yn hyn, gan fod angen darllen cyn gymaint o lyfrau, i gael yn aml ddim, neu efallai, frawddeg neu ddwy i ymdoddi i'r gwaith.

Cymeraf un rhan o'r erthygl uchod am y tro hwn.

Awgrymir fod y ffotograffydd wedi defnyddio 'actorion, ac mai 'gwagedd hen hyll mewn pais, begwn, het gopa dal' a ddefnyddid i bortreadu'r Cymry fel 'pobl ddieithr a rhyfedd', ac hefyd i'r un peth ddigwydd ynghynt, ynghanol y ganrif ddiwethaf, gan dri yn y gogledd ac un yn y de i wneud ysgythriadau i'r un perwyl.

Allai'r wisg ddim creu'r argraff y sonnir amdano uchod.

Os cymerir gwaith Iorwerth C. Peate yn unig, sef, *Diwylliant Gwerin Cymru* (Cyh. H. Evans a'i Feibion, Gwasg y Brython, Lerpwl 1942) cawn waith ymchwil manwl i olrhain tarddiad y wisg Gymreig. Yno, o ddyfynnu gwahanol ffynonellau, gwelir fod y 'wisg Gymreig' wedi deillio o'r Iseldiroedd, drwy Loegr, i Gymru. Gweler tudalen 34 ymlaen o'r llyfr.

Gan fod y cyfan o'r wisg i'w chael dros ddarnau o gyfandir Ewrop, prin y gellir dweud i'r ddelwedd fod yn ddieithr i'r mewnlifiad o ymwelwyr a ddaeth yn sgil y chwyldro diwydiannol, a'r chwyldro yn y dull o drafaelio, oedd yn seiliedig ar newid sylfaenol ym mywyd y werin yn Lloegr a manau eraill.

O 1774 ymlaen, fel welir ffasiwn hen gwledydd eraill yn dod yn ffasiwn newydd yng Nghymru efo sefydlu'r 'het Gymreig' ymysg y dosbarth canol - a'r ffasiwn hwnnw yn amrywio o un rhan o Gymru i ran arall.

Dyna ble dechreuau'r amrywiaeth yn yr het, y boned, y siôl, y betgwn, y llewysiau cyfnawid, y sgert, y ffedog, hosanau, a 'diwyg' y traed.

Nid oedd y wisg yn unffurf o ran ei phatrymau, ond 'roedd yn cadw rhai agweddau o'r wisg yn unffurf o un rhan i'r llall o'n gwlad, ac o un 'dosbarth' i'r llall.

GOLWG ARALL AR Y CHWEDL GYMREIG

Gan JOHN LLEWELYN WILLIAMS

Gwelir yn amlwg nad oedd 'dilyn y ffasiwn' yn dderbyniol gan ambell i garfan o'r gymdeithas.

Yn y *Drysorfa Llyfr XIX* (cyfres newydd), llyfr XXXV (hen gyfres) cyh. P.M. Evans, Treffynnon 1865, ceir erthygl ar 'Gwisgoedd yn eu perthynas â chrefydd', tudalen 248 ymlaen, a thudalen 330 ymlaen. Yn yr erthygl, ceir Methodistaeth yn ceisio'n ofalus roi hwb dros y dibyn i'r ffasiynau a wisgid i'r oedfaon - y 'wisg Gymreig' yn cael cic go frwl:

".....ni a welwn yn amlwg fod gwastraff mewn gwisgoedd.... y mae'n eglur fod ysbryd y genedl wedi chwyddo i ryw faintioli ynfyd a ffaidd dros ben....." Eto, yn ei anterliwtiau, gwelwn Thomas Edwards (Twm o'r Nant) yn bwrw iddi am yr 'het Gymreig' er enghraifft, yn 'Y Tri Chryfion Byd' o'r llyfr *Gwaith Thomas Edwards* (Twm o'r Nant) Cyh. I. Foulkes, 23 Brunswick Street, Liverpool 1874., tudalen 12, ble mae Tlodi'n traddodi,

A'r balloon bonnets, ar hatie rubane, A'r hankerchiefs mawr, a'r ruffles dwbwl....

YMATEB i'r newid yn y ffasiwn a geir yma o'r hyn oedd yn y ddeunawfed ganrif e.e. yr het gantal mawr, corun bychan wedi troi i gantal llawer llai a chorun llawer uwch. Mae rhestr o hanfodion y wisg Gymreig i'r 'dosbarth canol' i'w cael yn 'Myfyrdod neu Ddeisyfiad Cantores - am gael ei gwisgo a rhai o'r prif geinciau, yn lle dillad.....' Tudalen 174-176. *Bywyd Cymdeithasol Cymru yn y ddeunawfed ganrif*. R.W. Jones (Erfyl Fychan) cyh. Gwasg Gymraeg Foyle, 121 Charing Cross Road, W.C.2 1931.

Rhestrir crys, pais, claspysau, neclath, cap, croes-cloth, het, ysgarff, gwregys, pwrs, ffedog, gown, sanau, esgidiau, menyg, 'grin slifs' (llewysau cyfnawid).

Gwelwn gyfeiriadau at y wisg yn *An account of the most romantic parts of North Wales, J. Cradock London 1777*. Ynddo hefyd ceir cyfeiriad at yr amrywiaethau o'un rhan o'r wlad i'r llall, e.e. *There is a peculiarity in the dress of the Pembrokeshire woman, which, because it differs from the rest of Wales, I shall describe.....*

Â ymlaen i drafod mai hances

(ffunen) wisgent dros eu pennau, wedi'i rhwymo dan yr ên, yn hytrach na....in other parts of Wales, the women, as well as the men, wear large beaver hats, with broad brims flapping over their shoulders.

(Gwelwyd diddymu'r afanc o blith anifeiliaid Cymru, a daeth cotwm ar ffurf felfed yn ddefnydd i'r hetiau.)

Dyna frwisionyn neu ddau o gyfeiriadau.

ROEDD y wisg sylfaenol yn ffasiwn i ferched cefnog - ac, oherwydd dyhead i fod yn ffasiynol - merched a dynion llai cefnog, cyn i Gwenynen Gwent roi cyhoeddusrwydd i'r amrywiaethau yn ei chylch hi yn 1836.

Hel ffasiynau cyfoes, eu hamrywiaethau, a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt i'w phwrpas arbennig wnaeth hi - fel y gwnaeth y Llyfrgell Genedlaethol wrth gyhoeddi rhyw ddwsin o gardiau'n portreadu'r amrywiaeth.

Gwelodd rhai y wisg fel dull i wneud pres - y tynwyr lluniau drwy wneud yr hyn a welir mewn llawer gwlad heddiw, sef paratoi'r cyfarpar i lunio llun ffotograffiad ar sail gwisg; er enghraifft, 'cowbois', Mickey Mouse yn Disneyland, a, hyd yn oed, cwrdd gweddi yn yr Almaen a'i alw'n *Welsh Women at a prayer meeting*.

YR HEN LAW A GOFIODD AM LOT

Gan D. BEN REES

CAFODD y bychan a anwyd yn Nhyddyn Uchaf Bach, ffordd Llanfair Talhaearn, Abergale, ar Fai 20ed, 1787 (dau gan mlynedd yn ôl) i William ac Ann Hughes, enw anghyffredin sef Lot ond enw Beiblaidd. Dyna oedd arfer y cyfnod. A bu Lot Hughes yn eilun i gynulleidfa oedd a chymdogaethau am ei arwriaeth a'i ysbryd hunan ymwadol. Arbedodd Wesleaeth rhag aml i argyfwng gan wynebu ar rwygiadau ac ymgyrhoedd fel disgybl cywir John Wesley ac fel llysgennad anwylaf Yr Arglwydd Iesu Grist.

Bu Lot Hughes yn ffodus ei gofiannydd y Parchg. Edward H. Griffiths, Rhyll. Hen law ar lunio cofiannau. Y mae ei ddwy gyfrol ar yr heddychwyr George M.L. Davies bellach yn glasuron. Fe lwyddodd i ddarlunio Lot Hghes ar gyfnas Wesleaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn y Rhifyn arbennig o *Bathafarn*, Cyfrol 29, 1977-86 (Cylchgrawn Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru). Ei deithiau mynych o'r De i'r Gogledd, ei deulu yn Lerpwl, y trafferthion wrth farchogaeth y ceffyl o fan i fan, ac fel y bu bron â boddi wrth groesi o Fôn i Abergwyngregyn. Credai Lot Hughes mewn

dewis testunau bachog i'w bregethau a chwarae teg i E.H. Griffiths cawsom ddetholiad ohonynt. Rhai yn reit anghyffredin ac eraill yn fwy cyfarwydd. Hoffwn ei glywed yn Aberystwyth mewn Synod yn 1847 ar y testun o'r Salmuau:

Hwyr a bore a hanner dydd y gweddi, a byddaf daer: ac efe a glyw fy lleferydd.

Gwelodd Lot Hughes lawer o brofedigaethau. Collodd ei fab Willam yn ddeg ar hugain mlwydd oed yn Lerpwl. Ond fel tad Martin Luther King daliodd Lot i bregethu hyd yn oed yr wythnosau hynny pan oedd ei fab rhwng deufyd yn ninas Lerpwl.

HOFFAF ymdriniaeth E.H. Griffiths o *Lot Hughes* (1787-1873) am bedwar rheswm:

Yn gyntaf, mae ganddo gymaint o wybodaeth o hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru. Gall ddwyn i gof gyfeiriadau sy'n bywhau'r hanes. Y mae ei sylwgarwch bob amser yn llenyddol glasurol ac yn cadw diddordeb y darlennydd.

Yn ail, defnyddiodd adnoddau crai yr hanesydd - yn bennaf ysgrifau Lot Hughes yn

Yr Eurgrawn a phapurau Wesleidd eraill a'i lythyron. Y mae'r chweched bennod 'Rhai o'i lythyrau, yn bennaf, at Thomas', (ei ail fab), yn werth troi ati dro ar ôl tro.

Yn drydydd, y mae E.H. Griffiths yn deall na ellir sgrifennu hanes gŵr fel Lot Hughes heb gynnwys cyfeiriadau at y cyfnod. Efallai'n wir y medrai wneud mwy o hyn a holi beth a yrrodd Lot Hughes o le i le. Ai ei ddymuniaid i wasgar goleuni Wesleaeth neu archwaeth i helaethu terfynau y deyrnas? Mae lluo o gwestiynau y dylid fod wedi eu gofyn ond ni wnaethpwyd mo hynny am fod adrodd y stori wedi mynd â bryd y cofiannydd yn llwyr.

Yn olaf, y mae graen ar y cyflwyniad fel y gellid disgwyl gan lenor o allu E.H.Griffiths. Gobeithio y caiff y Parch E.H. Griffiths seibiant i roddi inni Gofiant Pedrog y prentis a gollodd hanner diwrnod o'i waith yn Dixon's Gardens, ger Caer, er mwyn bod yn angladd Lot Hughes ym mis Gorffennaf 1873. Englynodd Pedrog ar ôl Lot a fu mor gefnogol iddo:

Eglwys Iôn, mae'i thôn gaeth hi - yn dangos

Fod ing yn ei llenwi; Chwerw dristwch yrr drosti, Ac o'i ôl, mor wag yw hi.